

# TRIN GWALLT A THERAPI HARDDWCH

Os ydych yn unigolyn cymdeithasgar, siaradus a chreadigol sy'n hoffi gwneud i bobl deimlo'n dda ynghylch eu hunain, yna mae Trin Gwallt a Therapi Harddwch ar eich cyfer chi! O'r corun i'r traed, gallwch ddysgu technegau a sgiliau mewn triniaethau megis steilio, trin traed a chwyo.

Cymerwch olwg ar y gwahanol lwybrau gyrfaoedd y gallech chi eu dilyn:

## Trin Gwallt

O dorri a lliwio i glymu gwallt i fyny'n steilus, mynegwch eich dychymyg mewn gwallt. Bydd gennych lygaid am ddyluniad, gan roi cyngor i'r cleientiaid ar yr edrychiad sydd orau iddynt. Gallwch weithio eich ffordd i ddatblygu'n uwch steilydd neu dechnegydd.

## Therapi Harddwch

Gan faldodi a phincio'r cwsmer, byddwch yn defnyddio'ch gwybodaeth o fioleg croen a chemeg cosmetig i deilwra triniaethau at anghenion cleientiaid. Byddwch hefyd yn rhoi cyngor ar ôl-ofal a chynnyrch priodol. Mae'r swyddi mewn salonau, siopau adrannau a gwasanaethau symudol.

## Therapi Sba

Gelwir hefyd yn therapi holistig, byddwch yn hyrwyddo byw'n iach, lles ac ymwybyddiaeth ofalgar trwy driniaethau megis tyliniad pen Indiaidd, aromatherapi a hydrotherapi. Addas i'r rheiny sy'n dawel eu ffordd a hunanfeddiannol.

## Gwasanaethau Ewinedd

Gan fynd yn fwyfwy poblogaidd, gwasanaethau ewinedd yw'r ffasion sy'n mynd â hi. O driniaethau megis triniaethau dwylo a thraed, ewinedd acrylig a gel i wella iechyd cwtiglau a chyflwr iechyd, does dim un diwrnod yr un fath wrth weithio gydag ewinedd!

## Dolenni Defnyddiol

[www.skillsactive.com/sectors/hair-beauty](http://www.skillsactive.com/sectors/hair-beauty)  
Cyngor Sgiliau'r Sector dros Trin Gwallt a Harddwch

[www.nhf.info/about-the-nhf](http://www.nhf.info/about-the-nhf)

Ffederasiwn Cenedlaethol Trinwyr Gwallt  
[www.haircouncil.org.uk](http://www.haircouncil.org.uk) Y Cyngor Gwallt  
[www.babtac.com](http://www.babtac.com) Cymdeithas Therapi Harddwch a Chosmetoleg Prydain



MAE TRIN GWALLT A HARDDWCH YN YCHWANEGU  
**£187 MILIWN**  
I ECONOMI CYMRU  
**BOB BLWYDDYN**

CYFANSWM Y SWYDDI YN Y DIWYDIANT HWN  
**4,790 CYMRU**  
**142,969 DU**



**BYDD ANGEN MWY NA 5,500**  
**O DRINWYR GWALLT A BARBWYR YN Y DIWYDIANT YNG NGHYMRU ERBYN 2022**

**MAE 5% O'R BOBL YN Y SECTOR HWN YN HUNANCYFLOGEDIG**

**£15,873**  
**£8.25/AWR**  
**CYFLOG NODWEDDIADOL AR GYFARTALED D YN Y DIWYDIANT HWN**

(ffynhonnell EMSI Q1 2018 Dataset)

## Beth allaf i ei astudio, ac ymhle?

	Hyd	CK	PDBG	CN
Therapi Harddwch Lefel 2	1 flwyddyn	✓		✓
Therapiau Harddwch, Ewinedd a Sba Lefel 2	1 flwyddyn		✓	
Therapi Harddwch Lefel 3	1 flwyddyn	✓	✓	✓
Gwallt a Harddwch Lefel 1	1 flwyddyn	✓		
Trin Gwallt Lefel 1	1 flwyddyn	✓		✓
Trin Gwallt Lefel 1 (I Oedolion)	1 flwyddyn	✓		
Trin Gwallt Dysgu Carlam Lefel 1 a Lefel 2 wedi'u cyfuno	1 flwyddyn		✓	
Trin Gwallt Lefel 2	1 flwyddyn	✓	✓	✓
Trin Gwallt Lefel 3	1 flwyddyn	✓	✓	✓
Gwallt a Cholur ar gyfer y Cyfryngau Lefel 2	1 flwyddyn	✓		
Colur Theatraidd Lefel 3	1 flwyddyn	✓		

Ymgeisiwch ar-lein nawr ar [www.coleggwent.ac.uk](http://www.coleggwent.ac.uk) | [admissions@coleggwent.ac.uk](mailto:admissions@coleggwent.ac.uk) | 01495 333777 (Croesawn alwadau yn Gymraeg)



Campus key: PDBG - Parth Dysgu Blaenau Gwent / CK - Campws Crosskeys / CN - Campws Dinas Casnewydd

